Amserau Aber

Rhifyn 1 • Haf 2014

Newyddion Prifysgol Aberystwyth

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd Prifysgol Aberystwyth yn buddsoddi dros £100m i wella ac ymestyn ein cyfleusterau preswyl ac addysgu sydd eisoes yn rhagorol.

Mae hyn yn golygu buddsoddiad mawr yn y cyfleusterau fydd ar gael i fyfyrwyr, staff ac aelodau o'r gymuned leol.

Yn wir, dyma un o'r buddsoddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes y Brifysgol, a bydd yn sicrhau y bydd prifysgol hynaf Cymru mewn sefyllfa dda i oroesi heriau'r unfed ganrif ar hugain - trydedd ganrif o fodolaeth Aberystwyth.

Rhan o'r prosiect buddsoddi yw preswylfeydd i fyfyrwyr ar Fferm Penglais sy'n ddatblygiad werth £45m; caiff £35m ei fuddsoddi yn y Campws Arloesedd a Menter newydd yng Ngogerddan; hyd at £20m i ailddatblygu un o adeiladau mwyaf eiconig y Brifysgol, yr Hen Goleg, ac mae £4.5m eisoes wedi'i fuddsoddi i adnewyddu Canolfan Llanbadarn.

Esbonia'r Athro April McMahon, Is-Ganghellor y Brifysgol: "Ochr yn ochr â'n myfyrwyr a'n staff, Ystâd y Brifysgol yw un o'n prif asedau. Rydym ni'n falch iawn o'i hanes ac yn ddiolchgar am haelioni ein rhoddwyr ond rydym ni'n awyddus hefyd i sicrhau ei fod yn diwallu nid yn unig anghenion ein myfyrwyr cyfredol, ond hefyd anghenion cenedlaethau'r dyfodol."

"Mae gennym ni uchelgais i dyfu fel Prifysgol, ac mae ein buddsoddiad yn yr Ystâd yn arwydd o ymrwymiad clir i wneud hynny. Mae'r Hen Goleg yn ganolog i hanes y Brifysgol, ac yn allweddol i'w dyfodol a dyfodol y dref. Mae ein syniadau cychwynnol ar gyfer ailddatblygu'r Hen Goleg eisoes wedi'u gwyntyllu, ac mae'r syniadau cyntaf am sut y gallwn ni sicrhau llewyrch yr adeilad hwn yn y dyfodol ar gael i'w gweld yn y Cwad yn yr Hen Goleg. Bu'r ymateb yn hynod o gadarnhaol, ac rydym ni'n edrych ymlaen at ddatblygu ein cynlluniau a'n syniadau ymhellach gydag aelodau o'r gymuned leol.

Golygfa o'r awyr o Fferm Penglais, Mai 2014

Mae prosiect preswyl Fferm Penglais eisoes ar waith, a bydd y mwyafrif o'r ystafelloedd yn barod erbyn mis Medi 2014. Gan gofio'r tir amaethyddol lleol y mae wedi'i adeiladu arno, mae cynllun y blociau llety wedi'i ysbrydoli gan ysguboriau ac adeiladu fferm.

Mae pob un o'r 1000 o ystafelloedd gwely'n cynnwys cyfleusterau en-suite a chredir eu bod ymhlith yr ystafelloedd mwyaf sydd ar gael fel llety myfyrwyr yn eiddo i Brifysgol yn unrhyw le yn y DG.

Dywedodd James Wallace, Cyfarwyddwr Prosiect Fferm Penglais: "Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymfalchïo yn y profiad rhagorol mae'n ei roi i fyfyrwyr, a bydd y llety cyffrous hwn yn sicrhau ein bod wedi cynyddu nifer y cyfleusterau en-suite a'r fflatiau stiwdio i gwrdd â'r amrywiaeth eang o ddisgwyliadau ymhlith ein myfyrwyr, gyda'r cyfan ar safle hyfryd y mae'n hawdd cerdded ato o'r prif gampws."

"Datblygwyd ffurf a chynllun yr ystafelloedd mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr ac felly mae'n ystyried anghenion ein myfyrwyr. Mae'r ystafelloedd gwely a'r gofod cymunedol yn cynnig llety, ardaloedd dysgu a byw modern i gymuned y myfyrwyr. Mae'r holl ystafelloedd yn fawr ac yn cynnwys gwely maint brenhines a digon o ofod astudio."

Parhad ar dudalen 3

Ystafell wely astudio yn Fferm Penglais

2. Cyhoeddi Cymrodyr y Brifysgol

3. Bant â Ni!

Disgyblion Ysgol Gymraeg Aberystwyth a staff yr Adran Gyfrifiadureg yn gyrru roced i'r gofod!

4. Gwobr Efydd EcoCampws i'r Brifysgol

5. Croeso cynnes i'n Tîm Swyddogion Myfyrwyr newydd

6. Argraffu robot 3D



8. Dathlu llwyddiant - Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyhoeddir **Amserau Aber** gan yr Adran Cyfathrebu, Marchnata a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth.

Ffôn: 01970 622946
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk.

Croeso!

Croeso i rifyn cyntaf *Amserau Aber*, papur newydd cymunedol y Brifysgol, ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae gennym lawer i'w ddathlu yn Aberystwyth. Mae ein Prifysgol yn rhan greiddiol o'r gymuned leol, ac mae'r gymuned hithau'r un mor werthfawr i'n Prifysgol ni. Drwy ein papur newydd newydd, gobeithiwn rannu'r newyddion diweddaraf a lleisio barn rhai o'n staff a'n myfyrwyr gwych.

Mae gan y Brifysgol ryw 2,300 o staff ac oddeutu 10,000 o fyfyrwyr. Gan mai hi yw cyflogwr mwyaf y fro, mae bron pawb yn rhan o'r Brifysgol neu â chyswllt â hi neu â barn amdani. Does dim modd gor-ddweud ei gwerth a'i chyfraniad, ac mae'r egni y mae ein myfyrwyr yn cyfrannu at y dref a'r gymuned ehangach yn amhrisiadwy. Yn yr un modd, mae gwasanaethau a chefnogaeth ein cymuned leol hefyd yn hanfodol i ddarparu profiad eithriadol i fyfyrwyr Aber.

Nod ein papur newydd felly yw darparu gwybodaeth a meithrin cyswllt â'n cymuned leol. Mae'r rhifyn cyntaf yn gysylltiedig ag ail ddiwrnod Mynediad am Ddim, sydd yn wahoddiad agored i unigolion a theuluoedd ddod i weld yr hyn sydd gan y Brifysgol i'w gynnig drwy'r gweithgareddau a drefnir yng Nghanolfan y Celfyddydau, yr Hen Goleg a Labordy Lan y Môr yn y Bandstand.

Os na chawsoch gyfle i ddod i Mynediad am Ddim, does dim angen aros am flwyddyn gron cyn yr achlysur nesaf; mae digonedd o gyfleoedd i ymuno â ni yn y Brifysgol. Boed hynny'n golygu taro draw am goffi cyflym yn ein caffis niferus yn ein campysau ym Mhenglais, Llanbadarn Fawr neu Ogerddan; dod i weld un o'r sioeau penigamp yng Nghanolfan y Celfyddydau; neu ymuno ag un o'n dosbarthiadau yn y Ganolfan Chwaraeon - mae digon i'w wneud y tu hwnt i'r darlithfeydd.

Ar ben hynny mae gennym galendr o ddigwyddiadau a ddatblygir drwy'r flwyddyn ac sydd ar agor i'n cymuned leol ni. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roeddem yn ddigon ffodus i gynnal amrywiaeth o ddarlithoedd cyhoeddus, o Robert Peston yn trafod cyflwr ein heconomi, i John Gwilym Jones ar rôl crefydd mewn gwyddoniaeth.

Os ydych am fynd ati i ddysgu ymhellach, naill ai drwy ddilyn cwrs byr, rhan-amser drwy ein Hadran Dysgu Gydol Oes (mwy o fanylion ar gael ar dudalen 5), neu drwy ymuno ag un o'n cyrsiau gradd, mae llawer o lwybrau dysgu ar gael. Os hoffech gael gwybod mwy am y cyrsiau sydd ar gael, mae hi'n adeg dda iawn i gysylltu â staff ein tîm Denu Myfyrwyr gan ein bod ni'n ymbaratoi at Ddiwrnod Agored yr haf ar 2 Gorffennaf. Mae mwy o fanylion am sut i gofrestru am ein Diwrnod Agored ar gael ar ein gwefan.

Byddem yn croesawu adborth ar ein papur newydd. Os oes gennych unrhyw syniadau neu feddyliau, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ebostio neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad isod. Yn y cyfamser, os hoffech gofrestru i gael newyddion a'r diweddaraf am ein digwyddiadau gan y Brifysgol, cofiwch roi gwybod inni.

Cysylltwch â ni:

cyfathrebu@aber.ac.uk
Cyfathrebu, Marchnata a Materion Cyhoeddus
Prifysgol Aberystwyth, Campws Penglais,
Aberystwyth, SY23 3DD

IBERS yn cyfrannu £1m bob dydd i'r economi

Fe gynhyrchodd pob £1 o'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth £12.18 o fudd i economi'r Deyrnas Gyfunol yn 2012/13.

Mae IBERS yn cael ei hariannu yn strategol gan y BBSRC (Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Biotechnoleg a Biolegol) ac fe gynhyrchodd IBERS fuddiannau economaidd o £365 miliwn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) ar gyfer economi'r DG gan gefnogi bron 2,450 o swyddi.

Dyna gasgliad adroddiad annibynnol yn dadansoddi effaith y ganolfan ymchwil a dysgu a gydnabyddir yn rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth gan un o'r prif ymgynghorwyr economaidd annibynnol, BIGGAR Economics.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sut y mae gwaith ymchwil sylfaenol a chymhwysol eisoes wedi cael effaith a sut y bydd yn parhau i wneud hynny.

Mae gweithgaredd ymchwil IBERS yn cynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch a ddatblygir trwy ymchwil, ac mae masnacheiddio'r cynnyrch yma yn creu cyfoeth ac yn cefnogi swyddi ledled y DG.

IBERS Gogerddan

Mae canlyniadau'r ymchwil hefyd yn sail i weithgareddau dysgu yn IBERS, sy'n cyfrannu at gynhyrchiant graddedigion IBERS a'r cwmnïoedd sy'n eu cyflogi.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgaredd yma yn helpu i annog gwelliannau hirdymor i gynhyrchiant amaethyddiaeth y DG ac amrywiaeth o fuddiannau ehangach, na ellir eu mesur o fewn i'r DG a thramor.

Ceir copi o'r adroddiad yn: http://bit.ly/1kCrBTp.

Dathlu'r Graddio

Bydd un ar ddeg o Gymrodyr yn cael eu hurddo yn y Seremonïau Graddio eleni gan y Brifysgol, a gynhelir yng Nghanolfan y Celfyddydau rhwng 14eg a'r 18eg o Orffennaf 2014.

Cyflwynir y teitl o Gymrawd er mwyn anrhydeddu pobl adnabyddus a chanddynt gysylltiad agos â'r Brifysgol neu rai sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i fywyd proffesiynol neu gyhoeddus yng Nghymru.

Fe fydd D Geraint Lewis, yr Athro John Harries, Jeremy Bowen, Syr Michael Moritz, Rhodri Meilir, Ed Thomas, Rhod Gilbert, yr Athro Bonnie Buntain, Dr John Sheehy, Brian Jones a'r Farwnes Kay Andrews yn cael eu hurddo.

Dywedodd Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, "Bob blwyddyn rydym yn anrhydeddu cyflawniadau a chyfraniadau unigolion sydd wedi rhagori yn eu meysydd ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Aberystwyth, neu i Gymru. Bydd yn bleser ac yn fraint i gydnabod eu cyflawniadau yn ystod Wythnos y Seremonïau Graddio."

Caiff y Seremonïau Graddio eu darlledu'n fyw arlein yn www.aber.ac.uk

Dathlu'r Graddio - y newyddion yn fyw arlein yn www.aber.ac.uk/cy/news

Teithio i'r gofod

Dr Mark Neal, a'i gydweithwyr yn yr Adran Gyfrifiadureg, yn cydweithio â disgyblion Ysgol Gymraeg Aberystwyth wrth lansio roced i'r gofod dan bŵer balŵn tywydd heliwm.

Tua 30 km uwchben y ddaear, y balŵn tywydd wrth iddi rwygo ac i'r parasiwt agor.

Cafwyd lluniau anhygoel o Gymru yn dilyn y daith ofod gafodd ei lansio o Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

Lansiwyd y daith o gae chwarae'r Ysgol am 10.45 o'r gloch fore Iau 12 Mehefin gyda chymorth arbenigwr mewn roboteg o Brifysgol Aberystwyth.

Mae'r lluniau yn cynnwys golygfeydd rhyfeddol o Aberystwyth, canolbarth Cymru, Bae Ceredigion, Penrhyn Llyn, de orllewin Lloegr, ac un anhygoel o'r falŵn dywydd wrth iddi rwygo ac i'r parasiwt agor.

Cafodd y lluniau eu tynnu gan gamera GoPro o'r tu mewn i gapsiwl polystyrene a oedd wedi ei glymu at y falŵn dywydd.

Datblygwyd y dechnoleg ar gyfer y daith gan Dr Mark Neal, cydlynydd Grŵp Ymchwil Roboteg Ddeallus Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth, a rhiant yn yr ysgol.

Yn ogystal â'r camera, roedd y capsiwl yn cynnwys dau olrheiniwr GPS a chyfrifiadur bychan i fesur uchder, tymheredd a sut mae'r falŵn yn symud.

Y pwynt uchaf a gofnodwyd ar y daith oedd 26,382.45m. Ond mae Dr Neal o'r farn y gallai fod wedi cyrraedd hyd at 32,000 metr gan fod yr offer ar fwrdd y capsiwl yn dangos bod y falŵn wedi parhau i godi am dipyn ar ôl nodi'r darlleniad uchaf.

Cafwyd amrywiaeth eang o dymheredd yn ystod y daith. Pan gafodd ei lansio roedd y tymheredd yn 22.3°C. Erbyn cyrraedd 2,800 metr roedd y tymheredd yn 7.7°C ac ar y pwynt uchaf yn y daith roedd wedi plymio i -38.39°C.

Cyfanswm amser y daith, o lansio i lanio, oedd 2 awr 51 munud. A'r pellter o'r man lansio i'r cae ger Llandrindod, lle glaniodd y capsiwl, oedd 49.6km.

Dywedodd Dr Neal: "Mae hwn wedi bod yn brofiad hyfryd ac mae brwdfrydedd plant Ysgol Gymraeg Aberystwyth wedi bod yn wych. O safbwynt technegol, rwy'n rhyfeddu bod popeth wedi mynd cystal, y lansiad a sut mae'r offer ar fwrdd y capsiwl wedi gweithio. Roedd hi'n syndod i mi hefyd pa mor hawdd fu hi i ddod o hyd i'r capsiwl wedi iddo lanio. A dweud y gwir, roeddwn yn disgwyl treulio dyddiau yn chwilio amdano!"

"Mae'r data a'r lluniau sydd gennym o'r daith yn golygu fod y cyfan wedi bod gwerth chweil. Er hyn, nid oedd y synwyryddion a gafodd eu defnyddio wedi eu paratoi ar gyfer gweithio mewn pwysedd a thymheredd isel tebyg i'r hyn a brofwyd ar y daith, felly mae angen cymryd y data gyda phinsiad o halen", ychwanegodd.

Dywedodd Mr Clive Williams, Prifathro Ysgol Gymraeg Aberystwyth; "Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn hynod falch o gael bod yn lleoliad ar gyfer y daith gyffrous hon. O'r dechrau'n deg creodd y digwyddiad fwrlwm a chyffro yn yr ysgol ac awydd gwirioneddol ymysg y disgyblion i ddysgu mwy am y byd o'n cwmpas, yr amgylchedd yr ydym yn byw ynddi, ac wrth gwrs, y gofod. Fel y byddech yn disgwyl gydag unrhyw daith i'r gofod, roedd elfen o ansicrwydd a fyddai popeth yn gweithio. Mae'r ffaith ein bod wedi dod o hyd i'r capsiwl mewn cae ger Llandrindod ac wedi cael y delweddau trawiadol a gymerwyd gan y camera yn profi tu hwnt i unrhyw amheuaeth fod hon wedi bod yn daith lwyddiannus iawn.

"Wrth gwrs, ni fyddai hyn i gyd wedi bod yn bosibl heb gyfranogiad y disgyblion, yr athrawon, y rhieni, y noddwyr a chyfeillion lawer o Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cefnogaeth", ychwanegodd.

Datblygwyd y daith gan ddisgyblion, staff a rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth gyda chefnogaeth Eco-Sgolion Cymru, yr animeiddiwr Tim Allen, Ffotograffiaeth Keith Morris ac Ultracomida.

Ceir manylion am y daith i'r gofod o faes chwarae Ysgol Gymraeg Aberystwyth ar flog Dr Mark Neal yn http://markonstuff.blogspot.co.uk/2014/05/ysgol-gymraeg-prosiect-gofod-high.html

parhad o dudalen 1

"Bydd lle canolog hefyd, Y Sgubor, yn cynnwys gofod i'n myfyrwyr gymdeithasu a dysgu gyda'i gilydd."

Mae £4.5m arall eisoes wedi'i fuddsoddi yn y gwaith o ailddatblygu Canolfan Llanbadarn fel cartref newydd i'r Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth.

Mae'r Ganolfan newydd yn cynnwys y cyfleusterau dysgu grŵp diweddaraf, sydd wedi'u cynllunio gan dîm mewnol y Brifysgol o arbenigwyr, yn ogystal â thŷ bwyta rhagorol gyda golygfeydd godidog dros Fae Ceredigion.

Rhan arall o'r cynllun buddsoddi yw Canolfan Arloesedd a Menter newydd y Brifysgol yng Ngogerddan.

Mae'r datblygiad hwn yn bosibl yn sgil buddsoddiad o £14.5m gan y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth Biotechnoleg a Biolegol (BBSRC), a gyhoeddwyd gan David Willetts AS, Gweinidog y Deyrnas Unedig dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth wrth lansio Strategaeth Amaeth-Dechnoleg Llywodraeth y DG ym mis Gorffennaf 2013.

Disgwylir i gyfraniadau gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth, ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn y prosiect hwn i dros £35m.

Mae'r Brifysgol wedi penodi Huw Watkins yn Gyfarwyddwr y Campws i arwain y prosiect. Mae Huw, a ddechreuodd yn ei swydd ar 1 Mai, yn arwain y datblygiad gyda chymorth cydweithwyr yn IBERS. Gyda'i gilydd maen nhw'n gyfrifol am gyflwyno Campws Arloesedd a Menter o safon fyd-eang ar gyfer bwyd ac ynni adnewyddadwy.

Nod y Campws yw dod â budd mawr i'r economi ac i gymdeithas, o'r lleol i'r byd-eang, drwy harneisio adnoddau naturiol unigryw Aberystwyth o ran pobl a lleoliad, ynghyd â'i galluoedd rhyngddisgyblaethol.

Bydd Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth yn cynnwys canolfan hyfforddi â phwyslais masnachol, a bydd yn galluogi nifer o adrannau yn y Brifysgol i weithio gydag IBERS i ddatblygu'r bio-economi.

Bydd seilwaith a chyfleusterau newydd yn cael eu datblygu i ddenu cwmnïau ac ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn creu cynnyrch masnachol llwyddiannus yn seiliedig ar ddulliau modern o fridio planhigion.

IBERS yng Ngogerddan yw cartref y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol, werth £6.8m, a dderbyniodd gefnogaeth Llywodraeth Cymru a BBSRC, sy'n cynnwys y tŷ gwydr ymchwil mwyaf datblygedig yn y DG.

O'r cyfanswm a fuddsoddir, clustnodwyd hyd at £2.5m i ddatblygu Canolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran, adnodd unigryw a fydd yn canolbwyntio ar ehangu a gwella amaethyddiaeth yr ucheldir drwy ymchwil arloesol, hyfforddiant a datblygu. Mae prosiect Pwllpeiran yn cael ei arwain gan y Rheolwr Busnes a benodwyd yn ddiweddar, John Davies.

BARN:

Dryllio'r We: Sensora ar-lein yn enw democratiaeth?

Bu Tsieina yn enwog ers tro am fod yn llym wrth sensora'r we. Yn fwy diweddar, daeth hysbyslun gwrth-Islamaidd y ffilm '*The Innocence of Muslims*' i'r amlwg wrth i YouTube benderfynu ei wahardd 'yn wirfoddol' yn yr Aifft a Libya ac yna mewn gwledydd eraill lle roedd y fideo'n gwrthdaro â chyfreithiau lleol. Y newyddion diweddaraf o'r wasg yw fod Llys Cyfansoddiadol Twrci wedi penderfynu bod gwaharddiad cyffredinol ar YouTube yn Nhwrci yn anghyfansoddiadol.

Prin fod sensora o'r fath yn denu sylw heddiw, ond yr hyn sy'n llai amlwg i ddefnyddwyr cyffredin y we a darllenwyr papurau newydd yw fod sensora ar-lein bellach yn fwyfwy real i Ewropeaid â thraddodiad hir o ddemocratiaeth a rhyddid mynegiant.

Gwelwyd bod y tueddiad hwn tuag at ymrannu'r we yn seiberofod(au) cenedlaethol yn dechrau datblygu yn ôl Adroddiad y Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE) yn 2011 yn dilyn prif arolwg ledled Ewrop ar sensora ar y we yn ymwneud â chynnwys a ystyrid yn hiliol, yn senoffobig, yn derfysgol, yn eithafol, yn enllibus, yn anweddus neu'n syml yn 'niweidiol'. Nid yw sensora felly yn cael ei gyfyngu i bornograffi plant.

Er ei bod hi'n glir mai ychydig o wledydd yn Ewrop sy'n gweithredu trefniadau o wahardd yn gyffredinol fel y Tsieineaid, ceir amrywiaeth o fesurau cynnil sy'n golygu bod rhywun sy'n defnyddio'r we yn yr Almaen yn cael gweld rhyngrwyd sy'n wahanol iawn i ddefnyddiwr o Slofacia, y Ffindir neu'r Wcrain neu rywun yn y Deyrnas Gyfunol.

Mae'r mesurau hyn yn amrywio rhwng bygwth darparwyr estron nad ydynt yn cydymffurfio drwy sancsiynau cyfreithiol sydd yna'n 'wirfoddol' yn peidio â chaniatáu mynediad i safleoedd penodol (fel arfer bydd hyn yn gweithio ar gyfer darparwyr corfforaethol mawr megis Google neu Facebook yn unig); i ddatblygu polisïau yn y wlad sy'n gwahardd enwau parthau neu bolisïau atafael (fel yn achos y Weriniaeth Tsiec, Moldofa, Y Swisdir a'r Deyrnas Gyfunol), i fesuriadau gwahardd meddal mewn mannau cyhoeddus megis ysgolion a llyfrgelloedd a gwahardd gan Ddarparwyr Gwasanaethau'r We sydd efallai'n amodol ar ddewis i optio i mewn gan ddefnyddwyr (fel sydd dan drafodaeth yn y DG yn achos pornograffi a chynnwys eithafol arall). O dan y teitl 'partneriaethau cyhoeddus-preifat' mae awdurdodau gorfodi'r gyfraith mewn nifer o wledydd yn cydweithio â Darparwyr Gwasanaethau'r We i lanhau'r we, neu o leiaf i chwynnu'r hyn y mae cwsmeriaid a dinasyddion lleol yn cael ei weld. Popeth yn iawn hyd yma.

Y broblem yw er ei bod hi'n anodd efallai i wrthwynebu gwahardd fel strategaeth gorfodi'r gyfraith (fe ddown ni at y pwnc yma), nid awdurdodau gorfodi'r gyfraith neu farnwyr sydd bob amser yn cymryd y penderfyniad i wahardd ond darparwyr preifat all fod yn gweithredu er lles y cyhoedd neu beidio; nid ydynt ychwaith yn atebol i unrhyw adolygu cyffredinol. Hefyd, mae diffyg tryloywder yn golygu nad ydym ni, ddefnyddwyr y we, hyd yn oed yn ymwybodol ohono ac nad ydym felly yn gallu herio'r penderfyniadau hyn. Os nad yw chwilotwr yn cynnig canlyniadau penodol, pwy fyddai'n ymwybodol o hynny? Mae'n debyg y gellid datrys y problemau atebolrwydd hyn.

Problem fwy sy'n ddyfnach o lawer a heb ffordd o gael ei thrwsio'n sydyn yw'r ffaith fod y we drawsgenedlaethol a chyfraith genedlaethol yn eu hanfod yn anghyson â'i gilydd a byddai unrhyw gais i orfodi cyfraith genedlaethol ar lein o reidrwydd yn golygu dryllio tiriogaeth y we. Mewn geiriau eraill, mae'r sensora neu'r hunansensora sy'n digwydd o'n cwmpas yn ymdrech i gynnal cyfreithiau a ddeddfwyd gan senedd a etholwyd yn ddemocrataidd mewn seiberofod – amddiffyn ein plant rhag niwed, yn ôl gwahanol ddiffiniadau'r DG, Norwy neu Wlad Groeg; amddiffyn gamblwyr rhag gweithredwyr estron nad ydynt yn cydymffurfio; amddiffyn pobl yn eu harddegau rhag cyflenwyr cyffurfiau tramor neu ladron hawlfraint o ran hynny ac mae'r rhestr yn parhau. Ac mae'r hyn sy'n anghyfreithlon mewn un gwlad yn aml yn gyfreithlon mewn gwlad arall.

Efallai bod gan sensora ar-lein ochr foesol neu economaidd, ond dyma'r unig ffordd o ddiogelu mannau cyfreithiol cenedlaethol. Er hynny, a fyddai'n well gennym ryngrwyd ar gyfer y DG yn hytrach na Gwe Fyd-eang? Beth yw'r dewisiadau eraill? Pe na byddai cyfraith genedlaethol yn cael ei gweithredu neu ei gorfodi ar lein, pwy fyddai'n gwneud y rheolau – corfforaethau trawsgenedlaethol (UDA) fel Google neu eBay neu Amazon? Ai'r rhain yw ein deddfwyr newydd ni? Beth fyddai'n digwydd i ddemocratiaeth? A fyddai modd inni anwybyddu gorllewin gwyllt y we a byw fel pe na bai dim oll wedi digwydd? Dywedodd Eric Schmidt, Prif Swyddog Gweithredol Google Inc, mai'r we yw'r arbrawf mwyaf o ran anarchiaeth a gafwyd erioed, ond beth yn union oedd ganddo mewn golwg?

Bydd y cwestiynau hyn a chwestiynau eraill ar ddyfodol y we a'r wlad yn cael eu hystyried mewn symposiwm rhyngwladol ar 10-11 Medi 2014, a drefnir gan Adran y Gyfraith a Throseddeg, gyda'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, dan nawdd Google Inc. Bydd y Symposiwm yn dwyn ynghyd ysgolheigion o ddisgyblaethau'r gyfraith, gwleidyddiaeth, astudiaethau'r cyfryngau a daearyddiaeth ddynol, a chynrychiolwyr diwydiant (yn cynnwys Google a Microsoft), y llywodraeth, a Chyrff Anllywodraethol fel UNESCO.

Am ragor o fanylion, ewch i www.aber.ac.uk/en/internet-jurisdiction.

Mae Dr Uta Kohl yn ddarlithydd yn Adran Gyfraith a Throseddeg.

#caruAber – Aber yn lleisio ei hoffter o #Ffaberystwyth

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafwyd llu o drydar ar Twitter a sylwadau ar Facebook gan unigolion yn datgan eu cariad at Aberystwyth.

Dechreuwyd y dudalen Facebook "*Why I Love Aber*" gan grŵp o fyfyrwyr ac mae wedi ennill cefnogwyr brwd o bob rhan o'r byd.

Gan adleisio'r hyn sy'n digwydd ar Facebook, ac adeiladu ar yr arfer o ddefnyddio'r hashnod #Ffaberystwyth, mae hashnod newydd wedi'i greu i fawrygu'r profiad o fyw yn y dref a charu'r lle. Defnyddiwyd #whyiloveaber am y tro cyntaf gan aelod o staff yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol, Rachel Hubbard, pan wnaeth hi drydar "*When I come home and smell the sea air, I feel at peace #whyiloveaber*"

Mae llawer o'r trydar a'r lluniau yn dangos prydferthwch yr ardal, a llawer yn amlygu elfennau unigryw ac weithiau hynod ein cymuned. Dyma sampl bach o rai o'n ffefrynnau hyd yn hyn. Chwiliwch am yr hashnod er mwyn gweld nifer o rai eraill.

Mared Ifan: Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi digwyddiadau dathlu @UMCA40. 4 diwrnod anhygoel gyda chwmni gwefreiddiol! #caruAber

Rowcliffe: Aber #caruaber

Dyfarnu Gwobr Efydd EcoCampus i'r Brifysgol

Gwirfoddolwyr Blackout. (Ch i'r Dd) Janet Saunders, Ymgynghorydd Ynni Prifysgol Aberystwyth a phedwar myfyriwr a wirfoddolodd, Richard Fulloway, Ryan Myles-Roberts (gyda'r camera lluniau gwres), Joseph Sterry a Michael Lockwood. Drwy ddiffodd offer trydanol nad oedd yn hanfodol, llwyddwyd i leihau'r defnydd o drydan o fwy na 50%.

Fel rhan o Gynllun Dyfarniad Cenedlaethol EcoCampus, fe gyflwynwyd Prifysgol Aberystwyth gyda Thystysgrif Efydd yn ddiweddar am gyflwyno System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ar draws y Brifysgol.

Mae'r cynllun gwobrau yn helpu prifysgolion i adnabod, gwerthuso, rheoli a gwella eu perfformiad ac arferion amgylcheddol mewn gwahanol gyfnodau cynyddol.

Ymgyrch lwyddiannus a ddenodd gefnogaeth gan staff a myfyrwyr yn Aberystwyth oedd yr ymgyrch 'Diffodd y Golau' (Blackout) i helpu i leihau'r defnydd o ynni a CO_2 ar draws y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn gwneud cais am y Wobr Arian ym mis Hydref eleni, sef cam nesaf y cynllun gwobrwyo ac sy'n canolbwyntio ar weithredu'r systemau a'r gweithdrefnau a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod Efydd.

Mae EcoCampus yn cyd-fynd yn agos ag ISO14001, y safon EMS ryngwladol, ac yn cydnabod ymrwymiad y Brifysgol i wella safonau amlycheddol ym mhob rhan o'i gwaith.

Croeso i dîm newydd Undeb y Myfyrwyr!

Jacob Ellis, Llywydd (canol), a'i dîm newydd o Swyddogion Undeb y Myfyrwyr; Will Atkinson, Swyddog Lles; Miriam Williams, Materion Cymreig a Llywydd UMCA; Grace Burton, Swyddog Addysg, a Harriet O'Shea, Swyddog Gweithgareddau.

Yma, mae Jacob Ellis, Llywydd newydd etholedig Undeb y Myfyrwyr, yn son am ei gynlluniau ar gyfer Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Mae'n destun balchder ac yn anrhydedd i mi gael bod yn Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Rwy'n hanu'n wreiddiol o Fro Morgannwg ac rwyf newydd orffen fy ngradd mewn Cymraeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Yn flaenorol, rwyf wedi dal swyddi Swyddog Iaith Gymraeg a Chadeirydd yn Undeb y Myfyrwyr. Mae fy nyletswyddau fel Llywydd yn cael eu cryfhau gan fy mod yn gyd-gadeirydd Rhwydwaith Myfyrwyr Addysg Uwch Cymru, Swyddog Iaith Gymraeg ar gyfer Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru a Chynrychiolydd Myfyrwyr ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd y cyrff a'r sefydliadau hyn yn darparu'r cyfleoedd gorau i fyfyrwyr Aberystwyth.

Fel Undeb Myfyrwyr, rydym wedi cyflawni llawer o brosiectau ac amcanion yn unol â safbwyntiau a dyheadau'r myfyrwyr, a byddwn yn parhau i gwrdd â'r disgwyliadau hynny. Ar ôl nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus dros y flwyddyn ddiwethaf, bydd Undeb y Myfyrwyr yn cynnal ei hymrwymiad i alluogi myfyrwyr o bob cefndir i gael y profiad a'r addysg y maent yn eu haeddu ar faterion lleol a chenedlaethol.

Hoffwn weld Undeb Myfyrwyr mwy cynhwysol ac atebol, lle y byddwn yn trafod, gwrando a chyd-drafod, ond hefyd yn herio unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n bygwth corff myfyrwyr Aberystwyth ac, yn wir, y sector Addysg Uwch yng Nghrymu. Mae llais y myfyrwyr yn cyfri!

Yn bersonol, rwy'n edrych ymlaen at gael gweithio'n agos gyda'r gymuned leol yn Aberystwyth ac i ddatblygu ein perthynas â busnesau ac elusennau lleol. Yn ogystal â hyn, bydd yr enw da sydd gennym am weithio ar ymgyrchoedd lleol yn parhau wrth i ni geisio mynd i'r afael â materion megis trafnidiaeth, diogelwch a thai.

Mae Aberystwyth a'r sector Addysg Uwch yn wynebu llawer o heriau, ac fe allwn eu derbyn neu addasu ac arloesi ein strategaethau i ddatblygu corff myfyrwyr cryf a phrofiad ardderchog i fyfyrwyr yma yn Aberystwyth.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gwella ein gwasanaethau a'n gwaith i ddarparu Undeb Myfyrwyr cwbl agored ac atebol. Mae'n rhaid i ni wthio'r ffiniau a dangos uchelgais – rwy'n hyderus y gall tîm y Swyddogion, y staff a'r myfyrwyr gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Mae'n bwysig nad ydym yn undeb llawdrwm sydd ag agwedd 'o'r brig i lawr' tuag at ein gwaith beunyddiol. Roedd fy ymgyrch etholiadol yn pwysleisio pwysigrwydd caniatáu swyddogion rhan-amser i lywio'u hamcanion eu hunain, ac ennyn cefnogaeth ar gyfer eu hymgyrchoedd. Rhaid i fyfyrwyr deimlo bod ganddynt rym – a byddaf yn sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i wireddu hyn.

Undeb y Myfyrwyr

Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yw calon bywyd y myfyrwyr. Mae'r Undeb, a reolir gan swyddogion etholedig o blith y myfyrwyr, yn bodoli er mwyn gwella profiad myfyrwyr drwy annog cyfranogiad, cynorthwyo datblygiad a darparu cynrychiolaeth a gwasanaethau o safon.

Mae gennym dros 100 o glybiau chwaraeon a chymdeithasau, ac rydym yn annog myfyrwyr i fanteisio arnynt i wneud yn siŵr eu bod yn cael y profiad gorau posibl yn y Brifysgol. Yn ogystal â'r digwyddiadau, y gweithgareddau a'r mentrau yr ydym yn eu cynnig, rydym hefyd yn rhedeg Canolfan Cyngor i Fyfyrwyr sy'n darparu cymorth annibynnol ar amrywiaeth eang o faterion. Mae'r Undeb yn cynnig rhywbeth i bawb!

Am fwy wybodaeth: www.umaber.co.uk

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
www.aber.ac.uk/en/sell

Cyrsiau Dysgu Gydol Oes

Rhaglen Newydd Ehangach o Gyrsiau

Dysgu Am Oes

Ffôn: 01970 621580
www.aber.ac.uk/cy/sell
learning@aber.ac.uk

Addysg Uwch yn y Gymuned

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
School of Education & Lifelong Learning

Amser gwell i ddyfod!

Bydd y sawl sydd wedi buddsoddi yn y farchnad stoc yn gyfarwydd â'r rhybudd y gall prisiau ostwng yn ogystal â chynyddu.

Ac felly y mae hi gyda thablau cynghrair y prifysgolion.

Ers cyhoeddi'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr cyntaf yn 2006, mae Prifysgol Aberystwyth wedi perfformio'n eithriadol o dda ym maes bodlonrwydd myfyrwyr, gan ymddangos yn gyson yn y deg uchaf yn y DG.

Fodd bynnag, ers 2009 mae'r rhod wedi troi i Aberystwyth, gan arwain at ganlyniad Arolwg siomedig yn 2013.

Ac mae canlyniadau Arolwg 2013 yn parhau i ddylanwadu ar y tablau cynghrair a gyhoeddir gan bapurau megis y *Guardian* (Mehefin 2014) a'r *Complete University Guide*, flwyddyn ar ôl casglu'r data, a phedair blynedd ers i'r myfyrwyr, yr adlewyrchir eu barn, ddod i Aberystwyth am y tro cyntaf.

Mae'r Arolwg hefyd yn ein galluogi i ddeall yr hyn y mae myfyrwyr yn eu hystyried yn flaenoriaethau sydd angen mynd i'r afael â nhw, ac rydyn ni ymhell ar y ffordd i wella pethau.

Mae'n galonogol iawn bod egin ein gwellhad yn iach iawn.

Mae arolwg diweddaraf YouthSight, a gyhoeddwyd yn y *Times Higher Education* ym mis Mai yn dangos bod Aberystwyth wedi dringo un safle i rif 46, mewn maes sy'n cynnwys 111 o brifysgolion.

Yn yr un modd, mae astudiaeth ddiweddar Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol i-Graduate yn gosod Aberystwyth yn 7fed yn y byd am "Diwtoriaid personol", 4ydd yn y DU am "Gefnogaeth ariannol" ac yn y 10 uchaf yn y byd am "ddiogelwch".

Mae'r Brifysgol yn buddsoddi symiau digyffelyb o arian mewn llety newydd, adnoddau dysgu, ymchwil ac astudio.

Bydd Fferm Penglais, buddsoddiad gwerth £45m, yn agor ei drysau am y tro cyntaf ym mis Medi a bydd yn cynnig peth o'r llety gorau mewn unrhyw brifysgol yn y DG. Ni fydd llawer o'r rhai a fydd yn byw yno yn cael eu galw i leisio eu barn yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr tan 2017, a bydd hi'n 2018 cyn y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y tablau cynghrair.

Hir yw pob aros.

Ond daw'r maen i'r wal.

Gardeners' Question Time

Bydd Dr John Warren, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu IBERS yn cynnal sesiwn sgwrsio gyda James Wong ac yn cyflwyno sgwrs yn ystod achlysur garddio pwysica'r flwyddyn, pan fydd rhaglen BBC *Radio 4 Gardeners' Question Time* yn dod â'i Garddwest Haf Flynyddol i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru am y tro cyntaf ddydd Sul Mehefin 29.

Bydd James Wong y botanegwr a hyfforddwyd yng ngerddi Kew, cyflwynydd gwyddoniaeth i'r BBC, Llysgennad yr RHS ac, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, tipyn o gîc; yn holi'r ecolegydd planhigion Dr Warren, a ganddo ddiddordebau ymchwil ym maes cynnal amrywiaeth a chyfoethogi gwerth cadwraeth. Bydd ei sesiwn sgwrsio gyda James Wong yn trafod tyfu llysiau mwy egsotig, ac yn ei arddull ddihafal ei hun, teitl ei sgwrs fydd '*50 Shades of Green – the exotic sexual practices of plants*'.

Bydd arddangosiad hefyd o fodel cyfrifiadurol y myfyriwr PhD o IBERS, Lizzy Donkin a allai helpu garddwyr i osgoi plâu drwy gymysgu eu rhesi o bys a moron, a bydd y myfyriwr PhD o IBERS, Sam Thomas yn sôn am ei ymchwil i'r chwyn anarferol a geir yn ein tai gwydr.

Bydd yr Athro John Doonan a Dr Fiona Corke hefyd yn yr Arddwest i siarad am y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol a gyllidir gan y BBSRC yn IBERS.

Mae Garddwest GQT yn gyfle unigryw i fwynhau clywed dwy raglen arddio yn cael eu recordio yn y gyfres radio flaenllaw hon ar y BBC.

Bydd cyfle i gyfarfod â thîm GQT, holi cwestiynau iddyn nhw a bydd arddangosiadau a digwyddiadau garddwriaethol ledled yr Ardd, gan gynnwys cerddoriaeth, bwyd a gweithgareddau i'r teulu cyfan.

Bydd y gorau o blith y gurus garddio'n bresennol, gan gynnwys Bob Flowerdew, Bunny Guinness, Chris Beardshaw, Matthew Wilson, Pippa Greenwood, Matthew Biggs, Carole Baxter a chadeiryddion GQT Eric Robson a Peter Gibbs.

Cynhelir Garddwest Haf GQT yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, SA32 8HN ddydd Sul, Mehefin 29.

Cost tocynnau i'r digwyddiad yw £8.50 (ynghyd â ffi archebu o £1.50) a gellir eu harchebu drwy ffonio 01558 667148.



Argraffu robot 3D

Marley Plant (chwith) a Ferdia McKeogh o Glwb Roboteg Aberystwyth gyda'r robot InMoov dynolaidd sy'n cael ei argraffu ar hyn o bryd.

Darn wrth ddarn, mae robot, lle mae ei gydrannau'n gallu cael eu 'argraffu' gan argraffydd 3D, yn dod yn realiti mewn labordy yn y Brifysgol.

Y technegydd, Stephen Fearn, o Athrofa Fathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg y Brifysgol sy'n gyfrifol am y gwaith, ac InMoov fydd y dynolyn cyntaf o faint person yng ngorllewin Cymru, a bydd yn cyfarfod â'r cyhoedd am y tro cyntaf yn Lab y Traeth, Mynediad am Ddim, ar y Bandstand yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 21 Mehefin.

Mae darnau'r corff wedi eu gwneud o ddarnau plastig Polylactide (PLA) wedi'u printio, ac mae'r thermoplastig yn hyblyg wrth iddo gael ei gynhesu ac yna'n caledu wrth oeri. Ar gyfer argraffu 3D, caiff y plastig ei wthio drwy drwyn cynnes yr argraffydd 3D, sy'n adeiladu'r siapiau'n araf bach mewn haenau tenau o linynnau plastig meddal.

Caiff y darnau sydd wedi eu hargraffu eu rhoi at ei gilydd ynghyd â micro-reolwyr (Arduinos) a motorau (servos). Mae'r robot cod agored yn ymgorffori caledwedd sydd eisoes ar gael, ac felly mae hyn yn lleihau'r gost i lai na mil o bunnoedd - pris gwych o'i gymharu â robotiaid ymchwil eraill sy'n costio dros chwarter miliwn o bunnoedd i'w prynu. Mae cymalau InMoov yn symud mor llyfn â chymalau pobl. Ar y dechrau mae'r robot yn dangos symudiadau syml, ond gydag amser bydd yn gallu tracio drwy weld (bydd ei lygaid yn gallu dilyn gwrthrychau) yn ogystal ag adnabod sain.

Mae Steve yn dechnegydd ym Mhrifysgol Aberystwyth ers 35 mlynedd, a thaniwyd ei ddiddordeb mewn robotiaid wrth gystadlu yn 'Robot Wars' yn 2000, ac ers hynny mae wedi sylweddoli mai ei hoff gymeriadau ffuglen wyddonol oedd y Daleks a K9.

Bydd creadigaeth ddiweddaraf Steve, R2D2, hefyd yn ymddangos ar Stondin y Band yn Aberystwyth.

Mae gan Steve ddiddordeb ysol mewn creu pethau. Mae'n esiampl wych i ddysgwyr eraill, ac mae wedi ennill nifer o anrhydeddau. Cafodd ganmoliaeth fawr am ei gyfraniad i Staff Cefnogi'r Flwyddyn y Brifysgol yn 2013 ac yn 2014. Eleni enillodd gymeradwyaeth arbennig yng Ngwobrau'r Awdurdod Addysg Uwch Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (HEA STEM) fel Technegydd y Flwyddyn.

Mae Steve wedi bod yn gefnogwr amhrisiadwy i'r grŵp Technocamps lleol ym Mhrifysgol Aberystwyth, project sy'n cael ei ariannu gan Ewrop gyda'r bwriad o ysbrydoli pobl ifanc i ddatblygu'u sgiliau cyfrifiadurol y tu hwnt i'r sgrin a'r bysellfwrdd arferol.

Mae'r grŵp Technocamps yma wedi cyfarfod â thua 1,000 o bobl yn yr ardal, gan gyflwyno ystod o bynciau i bobl 11 i 19 oed i'w hannog i fod yn gynhyrchwyr technoleg, nid yn ddefnyddwyr technoleg yn unig.

Steve sy'n cynnal clwb ARC (Aberystwyth Robotics Club) ar gyfer robotwyr ifanc brwdfrydig, sef clwb ar ôl ysgol i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion uwchradd lleol Penweddig a Phenglais, ynghyd â'r rhai sy'n cael addysg gartref. O'r labordy Ffiseg mae Steve yn helpu pobl ifanc i adeiladu a rhaglennu.

Fel person technegol brwdfrydig ei hunan, mae Steve yn awyddus i gyfleu i bobl ifanc mor hawdd yw hi iddyn nhw gymryd rhan mewn technoleg: "Dydy hyn ddim yn anodd ei ddeall. Gall pobl ifanc greu a rhaglennu robotiaid a mwynhau dysgu wrth iddyn nhw wneud hynny. Yn y clwb maen nhw'n rhaglennu InMoov ynghyd â datblygu eu creadigaethau penodol, rhyfeddol eu hunain sy'n gallu hedfa, arnofio a gleidio, gan gynnwys: cwadcopter; creadur sy'n robot deudroed; robot ymladdgar o'r enw 'Mini Infinity' (a ddaeth yn ail ym Mhencampwriaethau 'Robot Wars' yn gynharach eleni); corryn cwad - ie, creadur pedair troed; robot brwsh; a chreadur sy'n crwydro creigiau. Mae'r holl greadigaethau hyn wedi'u cynllunio a'u creu gan y bobl ifanc yn y clwb. Mae'n wych eu gweld yn datblygu eu sgiliau, eu deall a'u diddordeb mewn cyfrifiadureg a pheirianneg drwy ddilyn eu hymchwiliadau eu hunain a chael hwyl. Rydyn ni hefyd yn ffodus i gael grŵp bywiog o staff gwirfoddol, gan gynnwys myfyrwyr ymchwil israddedig sydd hefyd yn awyddus i weld pobl ifanc yn dysgu wrth iddyn nhw greu."

Cefnogi'r Ambiwlans Awyr

Gearing up for the challenge, some of the Aber870 staff team.

I ddathlu ail ben blwydd agor Llwybr Arfordir Cymru, gwahoddir staff y Brifysgol i gofrestru ar Her Aber870, gan godi arian at Ambiwlans Awyr Cymru, Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor ar gyfer 2013/14.

Gall staff ymrwymo i naill ai nofio, seiclo, cerdded neu redeg pellter o'u dewis, a fydd, gyda'i gilydd, yn cyfateb i hyd arfodir Cymru, sef tua 870 milltir.

Dywedodd Jackie Sayce, un o gydlynwyr yr her: "Gofynnwn i gydweithwyr ymgymryd â her Aber870 a chefnogi Ambiwlans Awyr Cymru. I gyfateb â'r pellter, ein nod yw codi £870, ac rydym yn gobeithio y bydd y daith rithiol hon o amgylch yr arfordir yn ein galluogi i godi arian sy'n deilwng o'r elusen, ac yn cynnig cefnogaeth sefydliadol i gydweithwyr i fwynhau'r amgylchedd gwych yn lleol a gwella ein ffitrwydd personol."

"Hyd yn hyn mae 51 aelod o staff yn cymryd rhan yn yr her ac yn cyfrannu at y targed drwy ymrwymo i wneud y pellter penodol, o nofio am filltir i seiclo'r 870 milltir llawn. Erbyn hyn, rydyn ni, gyda'n gilydd, wedi cyflawni 56% o'n targed gwreiddiol o 870 milltir o amgylch arfordir Cymru! Gyda bron i fis ar ôl o'r her, rydyn ni bellach yn gweld pa mor bell allwn ni fynd fel tîm."

"Mae'r ymgyrch codi arian yn mynd yn dda, gyda bron i hanner y targed o £870 yn y banc."

Bellach yn ei ail flwyddyn, mae Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor yn anelu at godi arian hanfodol i achosion da. Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn elusen ar draws Cymru sy'n darparu gwasanaeth awyr hanfodol mewn argyfwng i'r sawl sy'n wynebu afiechyd neu niwed sy'n peryglu eu bywydau.

Mae Ambiwlans Awyr Cymru wedi cymryd rhan mewn dros 17,000 o achosion ers ei lansio ar ddydd Gŵyl Dewi 2001 ac mae'n dibynnu'n llwyr ar gefnogaeth gan y cyhoedd i'w ariannu.

Mae'n rhaid i'r elusen godi £6 miliwn yn flynyddol i ddarparu'r gwasanaeth gyda phob taith yn costio £1,500 ar gyfartaledd.

Yn dilyn cyfnod o enwebu a phleidleisio gan fyfyrwyr a staff, bydd Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei chyhoeddi adeg Graddio eleni. Mae ymgyrch Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor yn rhoi canolbwynt i fyfyrwyr a staff godi arian ar gyfer achosion haeddiannol yn lleol.

I gefnogi tîm Aber870 ac i gyfrannu at Ambiwlans Awyr Cymru, ymwelwch â

www.justgiving.com/AberUni-PrifAber1

Mae manylion am lwyddiant a chynnydd y Tîm yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u rhannu ar Twitter @Aber870

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
www.aber.ac.uk/en/hospitality

Croeso i Brifysgol Aberystwyth ble cewch hyd i leoedd gwych i fwyta ar y campws!

TaMed Da a TaMedbach, Penbryn
(wedi'u lleoli wrth y fynedfa i'r Campws)

Agor: 7.30yb-7.00yh (Llun i Gwener)
7.30yb-5.00yp (Sadwrn a Sul)

Yn gweini:
- brecwast o 7.30yb-10.00yb
- cinio 12.00-2.00yp
- pryd nos o 5.00-7.00yh (Llun i Gwener)
- yn ogystal â diodydd a byrbrydau trwy gydol y dydd

Mae ein bwyty sydd wedi ennill sawl gwobr yn cynnig bwyd o safon am bris rhesymol.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a gynigiwn:

• Brecwast traddodiadol (5 eitem)	£2.55
• Cawliau cartref	£1.95
• Adran Prynu a Mynd – brechdanau o	£1.50
• Prif gyrsiau o	£4.25
• Prydau i blant	£2.50

Papurau newydd, sgriniau byw i Gemau'r BCC, Teledu, ardal ddeciau.

IBERbach
(yn adeilad IBERS)

Agor: 9.00yb-5.00yp (Llun i Gwener)

Mae siop goffi IBERbach yn cynnig amrywiaeth eang o frechdanau, paninis, cacennau, diodydd oer a choffi a the arbennig. Lle gwych i eistedd ac ymlacio rhwng gemau.

Gwasanaethau **Croeso - Hospitality** Services

Llyfrgellydd y Gyfraith y Flwyddyn 2014

Lillian Stevenson, Llyfrgellydd Pwnc ar gyfer Adran y Gyfraith a Throseddeg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Rheolwr Gwasanaethau Academaidd y Brifysgol, yw enillydd Gwobr Llyfrgellydd Cyfraith y Flwyddyn Wildy BIALL 2014 (Cymdeithas Llyfrgellwyr y Gyfraith ym Mhrydain ac Iwerddon).

Cyflwynwyd y wobr i Lillian yng Nghinio Blynyddol BIALL a gynhaliwyd yn Harrogate ar ddydd Gwener 13 Mehefin.

Esboniodd Lillian Stevenson; "Roedd yn anrhydedd mawr i dderbyn y wobr hon, yn enwedig gan mai aelodau BIALL sy'n enwebu pobl ar ei chyfer y wobr, sefydliad proffesiynol sydd â thua 700 o aelodau, a hefyd oherwydd ei bod yn cydnabod rôl ganolog Llyfrgellwyr y Gyfraith a llyfrgellwyr pwnc o fewn eu sefydliad eu hunain, o fewn eu gwlad eu hunain ac yn rhyngwladol."

Ychwanegodd Jas Breslin, Llywydd BIALL; "Y Wobr hon yw ein cyfle ni i wobrwyo Llyfrgellydd y Gyfraith ragorol. Mae'r enillydd eleni yn llyfrgellydd cyfraith academaidd sydd wedi gwirfoddoli ar y ddau Bwyllgor BIALL ac ar y Cyngor. Mae hi wedi bod yn llysgennad rhagorol i BIALL ar sawl achlysur, a diolchwn iddi am y cyfraniad hwn tuag at ein sefydliad.

"Mae'r gwaith y mae Lillian wedi ei wneud er mwyn cynyddu gwybodaeth o adnoddau cyfraith Cymru yn haeddu sylw arbennig gan mai hi wnaeth gychwyn ar y gwaith, a chynhyrchu canllaw ymchwil Globalex i Gymru, gan olygu bod y system gyfreithiol Gymreig ac ymchwil cyfreithiol i lyfrgellwyr ac ymchwilwyr o amgylch y byd yn fwy gweledol. Yn dilyn hyn cyhoeddodd erthygl ar System Gyfreithiol Cymru yn y cyhoeddiad *Legal Information Management*, llynedd. Mae ei gwaith yn y maes hwn yn golygu bod system gyfreithiol Cymru yn amlwg i aelodau BIALL ac ymchwilwyr ar draws y byd."

Ffurfiwyd BIALL yn 1969 fel corff annibynnol a hunangynhaliol i hyrwyddo gwell rheolaeth o lyfrgelloedd y gyfraith ac unedau gwybodaeth gyfreithiol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon ac i gynrychioli buddiannau lyfrgellwyr y gyfraith a gweithwyr proffesiynol ym maes gwybodaeth gyfreithiol, a chyflenwyr eraill o lenyddiaeth gyfreithiol a deunyddiau cyfeirio.

Mewn lluniau: Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Yn gyfatebol i Oscars y Brifysgol, mae'r Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn cydnabod cyfraniadau staff academaidd a chefnogol o bob cwr o'r Brifysgol, sy'n nodi eu gallu i ysbrydoli, herio ac ymgysylltu â myfyrwyr.

Derbyniodd Gwobrau eleni y nifer uchaf erioed o enwebiadau gyda dros 400 o geisiadau a gyflwynwyd gan fyfyrwyr. Cafodd yr enillwyr eu cyhoeddi mewn seremoni wobrwyo fawreddog ym mis Mai.

Enillodd Dr Brieg Powell y Wobr am Ragoriaeth mewn Addysg Gymraeg; enillodd Dr Christian Enemark, Aelod Staff Newydd y Flwyddyn; Dr Tom Holt Gwobr Addysgu Eithriadol; enillodd Dr Kevin Grove wobr Tiwtor Personol y Flwyddyn; enillodd Ms Rose Sillars y wobr Athro Ôl-raddedig; enillodd Mr Ben Holihead, Gynrychiolydd Myfyriwr y Flwyddyn; enillodd Ms Ffion Hoare deitl Staff Cymorth y flwyddyn a'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear gipiodd y wobr am Adran y Flwyddyn.

Meddai Grace Burton, Swyddog Addysg, Undeb y Myfyrwyr y Brifysgol: "Roedd hi'n fraint arbennig cael arwain y dathliadau a chydnabod yn union faint o dalent sydd yma yn Aberystwyth. Roedd y myfyrwyr wedi bod yn ceisio cael enwau'r enillwyr gen i am wythnosau, felly roeddwn i'n wirioneddol falch ein bod ni o'r diwedd yn dathlu llwyddiannau cydweithwyr a ffrindiau!

"Mae'r gwobrau yn boblogaidd tu hwnt, ac roedd rhai enwebiadau gan y myfyrwyr yn hynod deimladwy, sy'n dangos yr effaith enfawr mae staff yn ei gael ar brofiad myfyrwyr."

Ychwanegodd yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor dros Brofiad Myfyrwyr y Brifysgol: "Hoffwn longyfarch pob un o'r enillwyr a'r enwebeion yn y Gwobrau Dysgu Myfyrwyr dan Arweiniad eleni. Mae'n bleser mawr i weld ein myfyrwyr yn pleidleisio dros bwy maen nhw'n teimlo yw'r sêr pan ddaw i ddysgu ac ysbrydoli. Dyma'r hyn sy'n gwneud Prifysgol Aberystwyth mor arbennig."

Trefnwyd y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gynhadledda Medrus y Brifysgol, gan Undeb y Myfyrwyr.

Yr Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn cipio'r wobr Adran y Flwyddyn yn y Gwobrau .Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr.

Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor dros Brofiad Myfyrwyr a Rhyngwladol, yn cyflwyno Ms Ffion Hoare, â'r wobr Staff Cynorthwyol y Flwyddyn.

Cyflwynwyd y wobr Dysgu rhagorol i Dr Tom Holt gan Grace Burton, Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr.

Darparwyd blog byw, cyflwyniadau fideo a diweddaru arlein gan dîm Aber Student Media. O'r chwith i'r dde mae Laura Say, Rhian Hughes, Mitch Rushton, Nick Robinson a Kate Saint.

Cydlynwyd y Gwobrau dan Arweiniad Myfyrwyr gan Grace Burton a Sam Reynolds o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.